CCSAPLE18

Cyfrannu at baratoi contractau ar gyfer prosiectau celfyddydau a digwyddiadau byw

Trosolwg

Mae'r Safon hon yn cynnwys sefyllfaoedd lle byddwch chi'n darparu cymorth i gydweithwyr wrth lunio a chynnal contractau ar gyfer prosiectau celfyddydau a digwyddiadau byw. Gallent fod yn y sector celfyddydau cymunedol neu'r sector masnachol a gallent gynnwys rhaglenni gweithgarwch, arddangosfeydd a gwyliau.

Byddwch yn cadw cofnodion o'r cytundebau a luniwyd, yn paratoi drafftiau ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n gyfoes.

Mae'r Safon hon ar gyfer unrhyw un sy'n gysylltiedig â chynorthwyo wrth baratoi contractau ar gyfer prosiectau celfyddydau neu ddigwyddiadau byw.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1 cadw cofnodion cywir o ddeilliannau cyd-drafodaethau ar gyfer bargeinion a chytundebau yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

2 dod â chynseiliau a chytundebau ffurf safonol i sylw pobl briodol pan fydd yn berthnasol

3 paratoi contractau drafft yn unol â chytundebau a wneir

4 cyfathrebu gydag artistiaid a chyhoeddwyr er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir ar gyfer contractau'n gywir ac yn gyfoes

5 briffio cydweithwyr priodol yn gyson am newidiadau a diweddariadau i gontractau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1 sut caiff contractau cymhleth eu drafftio a'u llunio

2 cynnwys contractau masnachol

3 diben contractau a sut cânt eu defnyddio yn eich diwydiant

4 pwysigrwydd bargeinion, cytundebau, contrâu ac atodiadau

5 y math o wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn contract gan gynnwys contrâu ac atodiadau

6 eich trefniadau sefydliadol ar gyfer llunio contractau

7 sut i gofnodi canlyniadau cyd-drafodaethau

8 cynseiliau a chytundebau ffurf safonol

9 trwyddedau a thaliadau PRS

CCSAPLE18

Cyfrannu at baratoi contractau ar gyfer prosiectau celfyddydau a digwyddiadau byw

Datblygwyd gan	Creative & Cultural Skills
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2018
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Maw 2022
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Creative & Cultural Skills
RCU gwreiddiol	CCSAPLE18
Galwedigaethau perthnasol	Artist, Gweinyddydd Celfyddydau, Gweithiwr Datblygu'r Celfyddydau, Arweinydd Celfyddydau, Artist Cymunedol, Gweinyddydd Celfyddydau Cymunedol, Rheolwr Celfyddydau Cymunedol, Gweinyddydd Digwyddiadau Byw, Cydlynydd Digwyddiadau Byw
Cyfres/Set	Cyflwyno Prosiectau Celfyddydau a Digwyddiadau Byw
Geiriau Allweddol	Celfyddydau; Digwyddiadau byw; cymuned; Contractau; Cytundebau